COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

CYNIGION DRAFFT

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O'R FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

CYNIGION DRAFFT

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

3. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

4. ASESIAD

5. CYNIGION

6. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

7. CYDNABYDDIAETHAU

8. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

9. Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost:cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau cam cyntaf yr arolwg o ffiniau cymunedol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ei Gyfarwyddyd i ni dyddiedig 31 Mawrth 2008 (Atodiad 1).

1.2 Diben yr arolwg yw ystyried a ddylai'r Comisiwn, er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gynnig newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol. Cynhelir yr arolwg o dan ddarpariaethau Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf).

1.3 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw, ysgrifennom ar 1 Mai 2008 at Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cynghorau Cymuned y Barri, Tregolwyn, y Bont-faen a Llanfleiddan, Dinas Powys, Ewenni, Llancarfan, Llandochau, Llandŵ, Llanfair, Llan-gan, Llan-maes, Llanilltud Fawr, Llanfihangel-y-pwll, Penarth, Pendeulwyn, Pen-llin, Llanbedr-y-fro, Sain Tathan, Saint-y-brid, Sain Dunwyd, Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái, Sain Nicolas a Thresimwn, Sili, Gwenfô, y Wig, a Llanddunwyd, yr Aelod Seneddol ar gyfer yr etholaeth leol, Aelodau'r Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg a gofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Cyhoeddom hefyd ein bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal a gofyn i'r Cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus. Rhoddwyd hysbysiad am gychwyn yr arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cynrychiolaethau (4 Gorffennaf 2008) ar wefan y Comisiwn.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cynigiwn:

- bod y ffin rhwng Cymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-pwll yn ardal yr eiddo a elwir Croft Mawr yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Llan-maes a Llanilltud Fawr yn ardal y B4265 yn cael ei hadlinio i ddilyn y llinell a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 4;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Penarth a Sili yn ardal Whitcliffe Drive yn cael ei hadlinio i ddilyn y llinell a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 5; a
- bod y ffin rhwng Cymunedau Penarth a Sili yn ardal Merlin Close a Brockhill Way yn cael ei hadlinio i ddilyn y llinell a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 5.

2.2 Ystyria'r Comisiwn fod rhinwedd i'r cynnig i rannu Cymuned bresennol Saint-y-brid a sefydlu cymuned ar wahân sy'n cyd-ffinio â ward bresennol Aberogwr, ond byddai'n croesawu cynrychiolaethau pellach cyn gwneud penderfyniad terfynol.

2.3 Mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ystyried arolwg o wardiau cymunedol ar gyfer Cyngor Cymuned y Barri yn unol ag adran 57(4) o'r Ddeddf.

3. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

3.1 Cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Tref y Barri, Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan, Cyngor Cymuned Ewenni, Cyngor Cymuned Llandochau, Cyngor Cymuned Llan-gan, Cyngor Cymuned Llan-maes, Cyngor Tref Llanilltud Fawr, Cyngor Tref Penarth, Cyngor Cymuned Pendeulwyn, Cyngor Cymuned Pen-llin, Cyngor Cymuned Sain Tathan, Cyngor Cymuned Gwenfô a Chyngor Cymuned y Wig; 3 Chynghorydd; a 316 o bartïon eraill â diddordeb a phreswylwyr. Ystyriwyd pob un o'r cynrychiolaethau'n ofalus cyn llunio ein cynigion. Gellir gweld manylion yr holl gynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2.

4. ASESIAD

4.1 Rydym wedi ystyried newidiadau awgrymedig i ffiniau cymunedol yn yr ardaloedd canlynol: Llandochau a Llanfihangel-y-pwll, Llan-maes a Llanilltud Fawr, Penarth a Sili, Pendeulwyn a Llanddunwyd, y Wig â Saint-y-brid a Sain Dunwyd, a wardiau Saint-y-brid sef Aberogwr a Saint-y-brid.

Llandochau a Llanfihangel-y-pwll

4.2 Rydym wedi nodi awgrym Cyngor Cymuned Llandochau y byddai'n fwy priodol i gynnwys yr eiddo a adwaenir yn Croft Mawr mewn ardal Gymuned arall. Ar ôl cynnal ymweliad â'r safle, cadarnhawyd mai'r unig ffordd i gael mynediad i'r eiddo hwn yw drwy Gymuned Llanfihangel-y-pwll ac ymddengys fod yr eiddo yn anghysbell o aneddiadau yn Llandochau. Ystyriwn felly bod y newid hwn i'r ffin yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cynnig adlinio'r ffin i symud yr eiddo o Landochau i Lanfihangel-y-pwll (map yn Atodiad 3).

Llan-maes a Llanilltud Fawr

4.3 Rydym wedi nodi'r awgrym gan Gyngor Cymuned Llan-maes i adlinio'r ffin rhwng eu Cymuned a Chymuned Llanilltud Fawr i ddilyn y ffordd B4265 yn Nhrebefered. Ystyriwn fod rhinwedd i'r cynnig hwn gan fod y ffordd brysur hon yn cynnig ffin effeithiol rhwng y ddwy ardal gymuned. Ar ôl cynnal ymweliad safle, gwnaethom sylwi, fodd bynnag, fod ffin awgrymedig y Cyngor yn hepgor dau eiddo i dde-orllewin Llan-maes. Rydym yn cynnig felly i ymestyn y ffin ymhellach i gyfeiriad y gorllewin ar hyd y ffordd B4265 er mwyn cynnwys y ddau eiddo hyn yng Nghymuned Llan-maes. Ystyriwn fod y newid hwn i'r ffin yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cynnig newid i'r ffin rhwng Cymunedau Llan-maes a Llanilltud Fawr fel y dangosir ar y map yn Atodiad 4.

Llanilltud Fawr

4.4 Ystyriwyd cais Cyngor Tref Llanilltud Fawr i godi nifer y Cynghorwyr yn Ward Trebefered. Dim ond o ganlyniad i newid ffin gymunedol Ward Trebefered y gellid ystyried newid o'r fath yn rhan o'r arolwg hwn. Mae'n wir fod y newid a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Llan-maes (4.3) yn cynnwys newid rhan o ffin Ward Trebefered yng Nghymuned Llanilltud Fawr, ac mae hawl gennym gynnig newidiadau i'r trefniadau etholiadol yn dilyn y newid hwnnw (ac ystyriwn wneud felly ym mharagraffau 6.7 a 6.11 isod – ni chynigir unrhyw newid), ond nid yw'r newid i'r trefniadau etholiadol a gynigir gan Lanilltud Fawr yn ôl-ddilynol ar unrhyw newid o'r fath i'r ffin yn ein pwerau i'w hystyried yng nghyd-destun yr Arolwg.

Penarth a Sili

4.5 Gwnaethom ystyried gynnig Cyngor Tref Penarth y dylid adlinio'r ffin rhwng eu Cymuned a Chymuned Sili er mwyn cynnwys eiddo yn Whitcliffe Drive, sydd ar hyn o bryd yn Ward Larnog, Sili y tu mewn i Ward Plymouth, Penarth. Gwnaethom sylwi bod mynediad i'r eiddo hyn yn Whitcliffe Drive o Benarth yn unig a chynigiwn gynnwys ardal Whitcliffe Drive yng Nghymuned Penarth (map yn Atodiad 5).

4.6 Gwnaethom nodi hefyd anomaledd arall yn y ffin rhwng Cymunedau Sili a Phenarth yn ardal Merlin Close a Brockhill Way. Cynigiwn fod yr anomaledd hwn yn cael ei unioni gan symud y ffin i'r ffens terfyn wrth gefn yr eiddo (map yn Atodiad 5).

Pendeulwyn a Llanddunwyd

4.7 Gwnaethom nodi'r cynnig a wnaed gan Gyngor Cymuned Pendeulwyn i symud dau eiddo o Landdunwyd i Bendeulwyn. Byddai'r ffin awgrymedig (map yn Atodiad 6) yn dilyn ffin y goedwig naturiol o amgylch ardal Fferm y Warren. Cynhaliwyd ymweliad safle â'r ardal a chadarnhawyd bod y mynediad i Fferm y Warren drwy Bendeulwyn. Ymddengys fod y ffin awgrymedig wedi'i diffinio'n glir gan ei bod dilyn ffiniau caeau, er yr ymddangosai nad oedd hyn yn rhoi mantais iddi yn hyn o beth dros y ffin bresennol. Yn dilyn y dystiolaeth rydym wedi'i hystyried ar yr adeg hon o'r arolwg, rydym o'r farn nad oes gan y ddau eiddo mwy o gysylltiad â Phendeulwyn ag sydd ganddynt â Llanddunwyd, ond byddem yn croesawu cynrychiolaethau pellach ar y pwnc gan ddangos sut y byddai gwneud newid o'r fath er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Sain Tathan

4.8 Gwnaethom ystyried gynnig gan Gyngor Cymuned Sain Tathan y dylid newid trefniadau etholiadol yn eu cymuned gan gael dau Gynghorydd yn llai yn Ward Sain Tathan a dau Gynghorydd yn fwy yn Ward Flemingston a fyddai'n adlewyrchiad gwell o nifer yr etholwyr yn y ddwy ward. Er ei bod yn ymddangos i ni fod rhinwedd yn adolygu trefniadau etholiadol y gymuned, ni allwn wneud hyn yn rhan o'r arolwg hwn.

4.9 Cynhelir yr arolwg hwn yn unol ag Adran 56 o'r Ddeddf sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Nid ydym wedi derbyn unrhyw awgrymiadau am newid i ffin Cymuned

Sain Tathan. Nid ydym felly yn gwneud unrhyw gynigion am newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cymuned Sain Tathan ar hyn o bryd.

Saint-y-brid

4.10 Gwnaethom nodi'r nifer o gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn cefnogi'r cynnig y dylai Ward Aberogwr o Gymuned Saint-y-brid ffurfio Cymuned ei hun. Gwnaethom nodi hefyd awgrym i ehangu maint y gymuned newydd hon i gynnwys ardal Southerndown o Ward Saint-y-brid. Ceir map yn dangos ffin y ward gymunedol bresennol a'r ffin gymunedol awgrymedig yn Atodiad 7.

4.11 Ystyriwyd nifer yr etholwyr yn y ddwy gymuned newydd a awgrymwyd, a nodwyd bod cymunedau gwledig eraill yn bodoli ym Mro Morgannwg a llai o etholwyr ynddynt. Rydym wedi ystyried hefyd gefnogaeth y cyhoedd am Gymuned Aberogwr a ddangoswyd gan y cynrychiolaethau a dderbyniwyd ar yr adeg hon. O ystyried y cynrychiolaethau cymhellol a niferus o blaid y cynnig hwn i sefydlu Cymuned newydd, ac ym mhob amgylchiad, mae'r Comisiwn yn fodlon bod rhinwedd i'r cynnig ond byddai'n croesawu mwy o gynrychiolaethau.

4.12 Gwnaethom nodi'r awgrym i ehangu maint Cymuned arfaethedig Aberogwr i gynnwys ardal Southerndown. Gwnaethom nodi, fodd bynnag, fod trefniadau wardio Saint-y-brid yn rhai hir sefydlog ac nid ydym yn ymwybodol o gynigion sydd wedi deillio ynghylch y ffin rhwng y ddwy ward ers iddynt gael eu sefydlu ym 1982. Nid oeddem wedi ein darbwyllo ar hyn o bryd y byddai ehangu maint Cymuned arfaethedig Aberogwr i gynnwys ardal Southerndown yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Croesawn sylwadau a chynrychiolaethau ynghylch y mater hwn yn enwedig gan breswylwyr ardal Southerndown a chan breswylwyr Cymuned Saint-y-brid gyfan a phartïon eraill a diddordeb ynglŷn â'r cynnig cyffredinol i ffurfio dwy gymuned newydd. Ystyrir trefniadau etholiadol y ddwy gymuned newydd yn 6.9 a 6.10 isod.

Gwenfô

4.13 Gwnaethom ystyried gynnig Cyngor Cymuned Gwenfô y dylid gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol eu cymuned er mwyn creu ward newydd ym Mharc y Gwenfô gan ystyriai'r cyngor fod nifer y boblogaeth yn cyfiawnhau'r newid. Er ei bod yn ymddangos inni fod rhinwedd yn adolygu trefniadau etholiadol y gymuned, ni allwn wneud felly yn rhan o'r arolwg hwn.

4.14 Cynhelir yr arolwg hwn o dan Adran 56 o'r Ddeddf sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Nid ydym wedi derbyn unrhyw awgrymiadau am newid i ffin Cymuned Gwenfô. Nid ydym felly yn gwneud unrhyw gynigion am newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cymuned Gwenfô ar hyn o bryd.

Y Wig

4.15 Gwnaethom ystyried y cynnig gan Gyngor Cymuned y Wig am newid eu ffiniau â Chymuned Saint-y-brid a Chymuned Llanddunwyd. Y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng y Wig a Saint-y-brid oedd cynnwys Fferm Sealand a dau lwybr yn mynd o Heol Las i'r creigiau yng Nghymuned y Wig. Y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng y

Wig a Llanddunwyd oedd cynnwys Fferm East Monkton a Fferm West Monkton yng Nghymuned y Wig. Ceir map yn dangos ardal Cymuned y Wig yn Atodiad 8y

4.16 Gwnaethom nodi bod y ddau lwybr eisoes naill ai yng Nghymuned y Wig neu yn rhannol yn ffurfio ffin Cymuned y Wig ac felly nid oedd angen adlinio'r ffin. O ran Fferm Sealand, ystyriwyd er bod mynediad i'r Fferm drwy'r Wig, ni wyddys faint o'r tir cyfagos oedd yn berchen i'r Fferm ac felly ni ellid nodi ffin amgen briodol. Gan fod y ffin bresennol wedi'i diffinio'n glir, yr ydym o'r farn nad yw'r newid awgrymedig rhwng Cymunedau'r Wig a Saint-y-brid yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Ynghylch Ffermydd East Monkton a West Monkton, ystyriwyd hefyd gan na nodwyd faint o'r tir cyfagos a oedd yn berchen i'r Ffermydd, nid oedd modd nodi ffin amgen briodol. Gan fod y ffin bresennol wedi'i diffinio'n glir, yr ydym o'r farn nad yw'r newid awgrymedig rhwng Cymunedau'r Wig a Llanddunwyd yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar hyn o bryd o ran newidiadau i ffin Cymuned y Wig, ond bydd y Comisiwn yn fwy na pharod i ystyried y mater ymhellach yn sgil unrhyw gynrychiolaethau neu wybodaeth bellach.

Y Barri

4.17 Yn ystod yr ymchwiliadau a wnaed yn rhan o'r arolwg hwn, gwnaethom nodi anomaledd amlwg yn y ffin rhwng Wardiau Baruc a Castleland, Cymuned y Barri. Mae'r ffin rhwng y ddwy ward hyn yn mynd trwy nifer o eiddo ar y cei (Atodiad 9). Cynhelir yr arolwg hwn yn unol ag Adran o'r Ddeddf sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned (a fyddai'n cynnwys newid i ffiniau ward) sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Nid ydym wedi derbyn unrhyw awgrymiadau am newid i ffin Cymuned y Barri. Nid ydym felly yn gwneud unrhyw gynigion am newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cymuned y Barri ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cynigiwn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn ystyried arolwg o wardiau cymunedol Cyngor Cymuned y Barri.

Ewenni

4.18 Gwnaethom nodi'r ohebiaeth gan Gyngor Cymuned Ewenni a phreswylydd o Ewenni yn cynnig newidiadau i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Arolwg yw hwn o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac rydym o'r farn y byddai ystyried newidiadau i ffin ardal prif gyngor (Sir a Bwrdeistref Sirol) y tu allan i gylch gwaith yr arolwg cyfredol hwn. Fel y gwnawn ym mhob achos, byddwn yn ystyried ceisiadau i gynnal arolwg o'r ffiniau rhwng ardaloedd prif gynghorau, ond rydym yn nodi ein bod wedi cynnal arolwg o'r ardal benodol hon mor ddiweddar â 1999 a chyn belled ag yr ydym yn ymwybodol, ni fu unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn yr ardal yn y cyfamser.

5. CYNIGION

5.1 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni ar yr adeg hon o'n harolwg, yr ydym yn cynnig y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Llandochau, Llan-maes, Llanilltud

Fawr, Llanfihangel-y-pwll, Penarth a Sili yn yr ardal dan sylw gan ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y mapiau yn Atodiadau 3, 4, a 5.

5.2 Gellir archwilio mapiau mwy manwl sy'n dangos y ffiniau newydd arfaethedig yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

5.3 Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein cynigion drafft i newid y ffiniau cymunedol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y cynigion.

6. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

6.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd hefyd yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau ar y trefniadau etholiadol i gynghorau cymuned a'r prif awdurdod, a fyddai'n deillio o'r newidiadau hyn. Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn manylu ar ein cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol. Byddem yn croesawu sylwadau ar yr agwedd hon ar ein hadroddiad hefyd. Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

6.2 Nid yw Cymuned Llandochau wedi'i wardio ac ar hyn o bryd cynrychiolir 1,474 o etholwyr gan 10 Cynghorydd (147 o etholwyr i bob Cynghorydd).

6.3 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Llanfihangel-y-pwll wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Llanfihangel-y-pwll	Llanfihangel-y-pwll	178	5	36
	Lecwydd	75	2	38
		253	**7**	**36**

* Etholwyr i bob Cynghorydd

6.4 Yn ôl ein cynigion, bydd gostyngiad o 3 yn nifer etholwyr Cymuned Llandochau, sef cyfanswm o 1,471 a bydd cynnydd o 3 yn nifer etholwyr Llanfihangel-y-pwll, sef cyfanswm o 256.

6.5 Nid yw Cymuned Llan-maes wedi'i wardio ac ar hyn o bryd cynrychiolir 348 o etholwyr gan 7 Cynghorydd (50 o etholwyr i bob Cynghorydd).

6.6 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Llanilltud Fawr wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Trebefered, Gogledd, De-ddwyrain a Gorllewin. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Llanilltud Fawr	Trebefered	2,159	3	720

Gogledd	2,525	5	505
De-ddwyrain	1,455	4	364
Gorllewin	957	3	319
	7,096	**15**	**473**

6.7 Yn ôl ein cynigion bydd gostyngiad o 3 yn nifer etholwyr Cymuned Llanilltud Fawr, sef cyfanswm o 7,093 a bydd cynnydd o 3 yn nifer etholwyr Llan-maes, sef cyfanswm o 351.

6.8 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Penarth wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Cornerswell, Plymouth, St Augustine's a Stanwell. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Penarth	Cornerswell	3,946	4	987
	Plymouth	4,432	4	1,108
	St Augustine's	4,479	5	896
	Stanwell	3,189	3	1,063
		16,046	**16**	**1,003**

6.9 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Saint-y-brid wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Aberogwr a Saint-y-brid. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Saint-y-brid	Aberogwr	786	5	157
	Saint-y-brid	826	6	138
		1,612	**11**	**146**

6.10 Awgrymir rhannu Cymuned Saint-y-brid i ffurfio dwy gymuned newydd, sef Aberogwr a Saint-y-brid, y ddau fel ei gilydd a chyngor cymuned. Mewn arolygon cynharach, fel canllaw, rydym wedi ystyried mai 7 aelod yw lleiafswm ymarferol cyngor cymuned. Rydym wedi nodi bod nifer o gynghorau cymuned ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd sydd â 7 Cynghorydd ond nifer is o etholwyr na'r nifer a awgrymir. Pe byddem ni yn mabwysiadu'r newid awgrymedig, byddem yn cynnig y byddai 7 cynghorydd ar gyfer 786 o etholwyr yng Nghymuned newydd Aberogwr a 7 cynghorydd hefyd ar gyfer 826 o etholwyr yng Nghymuned newydd Saint-y-brid.

6.11 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Sili wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Larnog a Sili. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Sili	Larnog	756	1	756
	Sili	2,600	8	325
		3,356	**9**	**373**

6.12 Yn ôl ein cynigion, bydd gostyngiad o 45 yn nifer etholwyr Cymuned Sili, sef cyfanswm o 3,311 a bydd cynnydd o 45 yn nifer etholwyr Penarth, sef cyfanswm o 16,091.

6.13 Gan roi'r awgrym am Saint-y-brid o'r neilltu, rydym o'r farn ynghylch yr holl Gynghorau Cymuned uchod nad yw'r newidiadau i nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau ffiniau arfaethedig mor arwyddocaol ar hyn o bryd fel bod angen cynnydd neu ostyngiad yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob Cyngor Cymuned.

Trefniadau Etholiadol y Cyngor Bwrdeistref Sirol

6.14 Mae gan adran etholiadol Dinas Powys sy'n cynnwys Cymunedau Dinas Powys a Llanfihangel-y-pwll 6,164 o etholwyr ar hyn o bryd a gynrychiolir gan 4 Cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-pwll yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn Ninas Powys yn cynyddu i 6,167.

6.15 Mae gan adran etholiadol Llanilltud Fawr sy'n cynnwys Cymunedau Llan-maes, Llanilltud Fawr a Llanddunwyd 7,874 o etholwyr ar hyn o bryd a gynrychiolir gan 4 Cynghorydd. Ni fyddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Llan-maes a Llanilltud Fawr yn cael unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Llanilltud Fawr.

6.16 Mae gan adran etholiadol Plymouth sy'n cynnwys ward Plymouth yng Nghymuned Penarth 4,432 o etholwyr ar hyn o bryd a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Penarth a Sili yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Plymouth yn cynyddu i 4,477.

6.17 Ar gyfer yr holl adrannau etholiadol a nodir uchod, rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob adran etholiadol ar hyn o bryd. Yn ystod y tair blynedd nesaf, rydym i gynnal arolwg o drefniadau etholiadol yr holl brif gynghorau yng Nghymru, a rhagwelwn y byddwn yn cael cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'n llywio ni wrth gynnal yr arolwg. Bryd hynny, byddwn yn edrych yn fanwl ar drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, ac yn ystyried unrhyw newidiadau sy'n codi o'r newidiadau arfaethedig hyn i ffiniau cymunedol.

7. CYDNABYDDIAETHAU

7.1 Dymunwn ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a'r Cynghorau Cymuned am eu cymorth ac i bob unigolyn a chorff a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

8. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

8.1 Dylid anfon yr holl arsylwadau ar yr adroddiad drafft hwn at:

Yr Ysgrifennydd
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

erbyn 17 Ebrill 2009 fan bellaf.

9. Y CAMAU NESAF

9.1 Byddwn yn cyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurf adroddiad a chynigion ar ôl i ni ystyried y sylwadau a gawn mewn ymateb i'r adroddiad drafft hwn. Yna, os y gwêl yn dda, cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd rhoi ein hargymhellion ar waith, naill ai gydag addasiadau neu hebddynt.

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

CHWEFROR 2009

GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL)(BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG) 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru trwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[1] yr arferir y pwerau hynny bellach gan Weinidogion Cymru[2]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

Ystyr "y Ddeddf " ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

Ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg er mwyn ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion mewn perthynas â'r ardal a adolygir ag yr awdurdodir gan adran 54 o'r Ddeddf a pha gynigion, os oes rhai, i'w gwneud; a rhaid i'r Comisiwn, os gwêl yn dda, lunio'r cynigion hynny yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 31/3/2008

---

(1) 1972 c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol(Cymru) 1994.

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad wedyn i Weinidogion Cymru gan Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c.38).

Crynodeb o Gynrychiolaethau Cychwynnol– Arolwg Gymunedol Bro Morgannwg

Dywedodd **Cyngor Tref y Barri** nad oedd ganddo unrhyw awgrymiadau i'w cyflwyno ynghylch newidiadau i'r ffiniau rhwng y Barri a'r cymunedau cyffiniol, sef Dinas Powys, y Rhws, Sili a Gwenfô.

Hysbysodd **Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan** y Comisiwn nad oedd ganddo unrhyw newidiadau i'w cyflwyno ynghylch ei ffiniau â'r cymunedau cyffiniol.

Cynigiodd **Cyngor Cymuned Ewenni** newid y ffin bresennol rhyngddo a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Afon Ewenni, ac i'r ffin ddilyn llinell rheilffordd y Fro. Ar hyn o bryd, mae pentref Ewenni wedi'i rhannu'n ddwy ran gan fod ardal Rhiw'r Crochenwaith y pentref ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai symud y ffin yn unol â'r cynnig yn golygu bod pentref Ewenni i gyd, a Heronston i'r de o'r rheilffordd, yng Nghyngor Cymuned Ewenni.

Cynigiodd **Cyngor Cymuned Llandochau** y byddai'n well pe bai'r eiddo a adwaenir fel Croft Mawr ar Ffordd Penyturnpike yn ardal Cyngor Cymuned Dinas Powys neu Lecwydd/Llanfihangel-y-pwll.

Mae **Cyngor Cymuned Llan-gan** yn gwbl fodlon ar y ffiniau fel y maent ar hyn o bryd.

Ystyriai **Cyngor Cymuned Llan-maes** fod y ffin rhwng Llan-maes a Llanilltud Fawr yn amhriodol gan ei bod yn hanesyddol ac wedi dyddio. Cynigiodd y Cyngor y newid canlynol:

- Dylid estyn rhan o'r ffin bresennol, sef nant, hyd y ffordd B4265 fel y dynodir gan y llinell werdd ar y map atodedig. Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr yw'r B4265 ac mae'r Cyngor Cymuned o'r farn y byddai'r ffordd yn creu ffin fwy naturiol. Cynigiodd y Cyngor y dylai'r ffin gael ei hymestyn i'r goleuadau traffig sydd ar y gyffordd wrth ddod i mewn i bentref Llan-maes ac yna ddilyn y ffordd i'r gyffordd â Ffordd Eglwys Brewis. Byddai'r newid arfaethedig yn golygu bod tri eiddo o Gyngor Tref Llanilltud Fawr yn cael eu cynnwys yn ardal Cyngor Cymuned Llan-maes.

Roedd **Cyngor Tref Llanilltud Fawr** am gadw'r ffiniau presennol ond gwnaethant holi a ellid ystyried codi'r gynrychiolaeth yn ward Trebefered ar y Cyngor Tref oherwydd cynnydd yn nifer y preswylwyr.

Awgrymodd **Cyngor Tref Penarth** y newidiadau canlynol er mwyn unioni anomaleddau ffiniau:

- Yn Whitcliffe Drive, mae rhifau 1 - 14 ym Mhenarth (cyn belled â llinell yr hen ffens ar ymyl y cae a oedd gynt yn ffin Penarth) tra bo rhifau tai 16 ymlaen yn Sili a Larnog. Mae hyn yn ddryslyd, yn enwedig i breswylwyr.

- Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston. Mae'r ffin bresennol yn croesi rhan o'r Llyn Dwyreiniol a byddai'n fwy synhwyrol pe bai'r holl barc yn ardal Penarth. Ni fyddai newid o'r fath yn effeithio ar unrhyw etholwyr.

- Mae dau eiddo yn Sully Road – Inglenook a Glan Hafren sydd o fewn ffin Penarth ond mae hyn yn codi'r cwestiwn p'un a ydynt yn y ward gywir. Ar hyn o bryd, maent yn ward Cornerswell; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn awgrymu y dylent fod naill ai yn ward Stanwell neu ward Plymouth.

Dywed **Cyngor Cymuned Pendeulwyn** fod anomaledd yn y ffin bresennol rhwng Pendeulwyn a Llanddunwyd yn Warren Mill. Mae un ochr o'r ffordd ym Mhlwyf Pendeulwyn tra bo'r ddau eiddo ar ochr arall y ffordd, sef Fferm Barn a Gorllwyn, ym Mhlwyf Llanddunwyd.

Mae gan y ddau eiddo gyfeiriadau a chodau post Pendeulwyn ac maent wedi'i hynysu o bentref Llanddunwyd. Byddai'r goedwig gyfagos yn ffin fwy naturiol rhwng y ddau blwyf na'r ffordd. Dywed y perchnogion eu bod yn perthyn i gymuned Pendeulwyn yn hytrach na chymuned Llanddunwyd. Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais i'w cynnwys ym Mhendeulwyn. Cynigiodd y Cyngor ffin newydd a ddynodir mewn gwyrdd ar y map atodedig.

Daeth **Cyngor Cymuned Pen-llin** i'r casgliad nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol.

Roedd **Cyngor Cymuned Sain Tathan** yn ystyried newid cynrychiolaeth y Cynghorwyr gan gael dau Gynghorwyr yn llai yn ward Sain Tathan a dau ychwanegol yn ward Trefflemin gan y byddai hyn yn adlewyrchiad gwell o nifer yr etholwyr yn y ddwy ward. Dywedodd y Cyngor ei fod yn gwybod bod newid nifer y Cynghorwyr y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn, ond roedd am sicrhau y cyflwynir ei farn gerbron y Comisiwn.

Argymhellodd **Cyngor Cymuned Gwenfô** na ddylid newid ei ffiniau presennol ond gofynnodd am ystyried cais i greu ward newydd ym Mharc y Gwenfô gan ei fod o'r farn bod nifer y boblogaeth yn cyfiawnhau hynny.

Cynigiodd **Cyngor Cymuned y Wig** sawl newid i'w ffiniau o amgylch pentref y Wig. Un awgrym oedd cynnwys dau lwybr sy'n mynd o Heol Las i'r graig a'r grisiau i'r traeth. Daethant i'r casgliad fod y ffin yn ysbeidiol ar hyn o bryd ac y gellid ei hymestyn i safle rhesymol. Yn ail, dylid cynnwys Fferm Sealand yn y Gymuned gan fod yr unig fynediad iddi drwy bentref y Wig. Yn olaf, dylid cynnwys ffermydd East Monkton a West Monkton o fewn ffiniau'r Wig oherwydd eu hagosrwydd.

Gofynnodd **Y Cynghorydd Richard Bertin**, Adran Etholiadol Cwrt y Barri, Cyngor Bro Morgannwg, a ellid ystyried symud Pearce Court, y Barri o ward y Cwrt i ward Gibbonsdown gan fod y preswylwyr yn ystyried eu hunain yn rhan o Gibbonsdown a'r unig fynediad i'r ffordd oedd o Gibbonsdown.

Ysgrifennodd **Y Cynghorydd Chris Howell** o Aberogwr yn gofyn i'r Comisiwn ystyried sefydlu ardal Cyngor Cymuned newydd yn seiliedig ar ward bresennol Aberogwr. Dywedodd i Gyngor Cymuned Saint-y-brid godi'r mater am y tro cyntaf ym mis Mai 2004, ond ni allai Gyngor Bro Morgannwg gyflawni eu dyletswyddau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gynnal llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gan fod y Comisiwn bellach yn cymryd rhan uniongyrchol yn y broses, roedd yn ffyddiog y caiff dymuniadau mwyafrif llethol preswylwyr Aberogwr sylw teg. Roedd ei ddadleuon o blaid y newidiadau awgrymedig fel a ganlyn:

- Mae ardal Cyngor Cymuned Saint-y-brid yn seiliedig ar hen ffin Blwyf a sefydlwyd pan oedd Aberogwr ddim ond yn ddyrnaid o eiddo ar hyd yr arfordir. Yn y blynyddoedd cyfamserol, mae'r lle wedi tyfu fel mai Aberogwr yw'r lle mwyaf yn yr ardal ond nid oes ganddo lais annibynnol mewn llywodraeth leol. Mae dros 900 o breswylwyr yn Aberogwr o gymharu â thros 600 yn Saint-y-brid (ystadegau Cyngor y Fro).

- Mae Cyngor y Fro ac awdurdodau eraill fel yr heddlu a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dueddol o ystyried ardal y cyngor cymuned presennol fel un "cymuned". Ar sail hynny, mae ysgol, maes chwarae a phafiliwn, neuadd bentref, neuadd sgowtiaid, maes chwarae i blant wedi'i ariannu'n dda, 5 tafarn, bar tapas a 2 siop bentref. Y gwir amdani yw nad oes gan gymuned y pentref ond un siop a bar tapas bychan – mae'r holl gyfleusterau cymunedol naill ai wedi'u colli neu heb eu darparu erioed. Mae llawer o enghreifftiau sut y mae Aberogwr wedi bod ar ei golled oherwydd diffyg cynrychiolaeth annibynnol.

- Tros y blynyddoedd, symudwyd cyfarpar o faes chwarae'r plant yn Aberogwr i'r fath raddau fel mae un siglen yn unig sy'n weddill. Pan holwyd Cyngor y Fro ynghylch y mater gwnaethant ddyfynnu "adolygiad o gyfleusterau cymunedol" roeddent wedi'u cynnal a ddangosodd fod "darpariaeth dda" i'n cymuned gan gynnwys maes chwarae newydd wedi'i sefydlu a'i gynnal gan y Cyngor Sir. Ni wnaeth y ffaith fod hwn ym mhentref Saint-y-brid, rhyw dair milltir i ffwrdd gael ei ystyried yn eu cyfrifo – mae gan y "gymuned" y nifer gofynnol o feysydd chwarae i blant..

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gosodwyd arwyddion cyflymder wedi'u goleuo yn y Wig, Corntwn a Saint-y-brid ac maent wedi bod yn effeithiol wrth ostwng cyflymder traffig trwy'r pentrefi hyn. Mae preswylwyr Aberogwr wedi bod yn cwyno am gyflymder traffig am flynyddoedd lawer ond unwaith eto mae'r awdurdodau wedi rhoi tic yn y blwch "gostegu traffig" ar gyfer y "gymuned" heb fod o unrhyw fantais i Aberogwr.

- Ni ellir beio'r awdurdodau mewn gwirionedd – maent yn gweld "cymunedau" ar y mapiau gwleidyddol ac yn rhannu'r adnoddau prin yn unol â hyn ond mae'r sefyllfa hon wedi rhoi'r gymuned dan anfantais. Am flynyddoedd mae preswylwyr wedi tynnu sylw at broblemau ond ychydig iawn a wnaed i wella pethau. Mae'r sŵn o'r meysydd parcio a phoendod baw cŵn a sbwriel ar y Tir Comin yn cynyddu bob blwyddyn; yn ystod misoedd yr haf mae'r strydoedd wedi'u tagu â cheir wedi'u parcio; mae traffig sy'n gyrru'n gyflym yn parhau'n fygythiad parhaol; mae carthion yn aml yn arllwys ar y Tir Comin ac ati. Effeithir ar fywydau llawer o bobl yn y pentref gan ddiffyg gweithredu, sy'n deillio o ddiffyg cynrychiolaeth briodol.

- Gan fod Aberogwr wedi'i glustnodi i gael datblygiad preswyl ychwanegol yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd y Fro, bydd yr anghydbwysedd mewn cynrychiolaeth yn ystod y ddegawd nesaf yn gwaethygu. Mae dros 40 erw o dir yn y pentref wedi'i gynnig at ddibenion datblygu a gallai olygu mwy na 500 o dai ychwanegol mewn pentref sydd bron heb unrhyw gyfleusterau cymunedol. Heb lais cryf annibynnol, gallai'r gymuned gael ei newid am byth heb fod pobl yn cael cyfle i leisio barn ar faterion sy'n berthnasol iddynt hwy.

- Mae'r Cyngor Cymuned presennol wedi bod yn draddodiadol o ran ei agwedd erioed. Mae wedi tueddu i fod o'r farn mae Saint-y-brid yw "calon" y plwyf a bod yr

hyn sydd yn dda i Saint-y-brid a'i heglwys yn dda i bob un ohonom. Am flynyddoedd lawer, mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'i amser a'i arian ar gynnal a chadw ac yswirio eiddo. Mae'n berchen ar fynwent, cloc yr eglwys, croes bregethu, cofeb rhyfel, 13 lloches bysus a 10 sedd min ffordd. Mae llawer o breswylwyr Aberogwr o'r farn y dylai Cyngor Cymuned modern, yn lle hynny, ganolbwyntio ar bryderon preswylwyr lleol a chefnogi hawliau ac anghenion y gymuned mae'n ei gwasanaethu.

- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cryn dipyn o ddiddordeb ymhlith preswylwyr Aberogwr mewn materion yn ymwneud â'r cyngor cymuned. Yn yr etholiad eleni, roedd 8 ymgeisydd am 5 sedd yn y ward (am yr ail etholiad yn olynol) ond yn Saint-y-brid, dim ond pedwar ymgeisydd oedd ar gyfer y chwe sedd ac felly fe'u hetholwyd yn ddiwrthwyneb. Mae hyn yn arwyddocaol o'r dyhead yn Aberogwr i gael y gynrychiolaeth mae'n ei haeddu.

- Byddai cyngor newydd yn seiliedig ar ward Aberogwr o faint ymarferol ar gyfer Cyngor Cymuned. O ran nifer etholwyr, byddai'r cyngor newydd yn debyg i weddill ardal Saint-y-brid a byddai cryn dipyn yn fwy na maint y cynghorau cyfagos yn y Wig, Ewenni a Chorntwn a byddai'n un o'r cynghorau cymuned gwledig mwyaf o ran maint yn y Fro. Byddwn wedyn yn bartner cydradd â'n cymdogion a byddwn yn cydweithio â hwy ar faterion o bryder cyffredin. I ryw raddau, mae'r pedwar pentref wedi dioddef o ganlyniad i newidiadau 1996, a'n symudodd o'n cysylltiadau tradodiadol â Phen-y-bont ar Ogwr gan ein hadlinio â'r Barri. Mae canfyddiad ar led nad yw materion ym mhen gorllewinol y Fro yn cael y flaenoriaeth y dylent eu cael a gall ychwanegu cyngor annibynnol arall i frwydro dros anghenion ein cymunedau ond gwella pethau.

- Yn etholiad Mai 2008, sefais fel ymgeisydd ar gyfer Cyngor Cymuned Saint-y-brid ac yn fy nhaflen etholiad, a ddosbarthwyd i bob tŷ yn y ward, gwneuthum fy safbwynt ar y mater o rannu ardal y cyngor cymuned yn glir iawn. Dywedais fy mod o blaid hyn a phan fyddai'r amser yn dod byddwn yn ymgyrchu am newid. Fi gafodd y nifer mwyaf o bleidleisiau yn yr etholiad. Roedd cyhoeddiad y Comisiwn Ffiniau am gynnal arolwg cymunedol yn cyd-ddigwydd ag amser prysur iawn i mi yn bersonol – cododd mater cymunedol brys arall a gymerodd fy holl amser rhydd – ac felly dim ond wythnos yn ôl roeddwn yn gallu dechrau ymgyrchu. Rwyf wedi fy synnu gan yr ymateb. Roeddwn yn ymwybodol fod pobl yn gyffredinol, yn anfodlon â'r trefniadau presennol ond nid oedd gennyf unrhyw syniad y byddai cymaint o bobl yn rhoi eu henwau mor gyflym i gefnogi cael cyngor newydd ar gyfer ein cymuned. Llwyddais i siarad â dim ond tua 60 o bobl yn bersonol ond un o'r rhain yn unig oedd am gadw'r drefn gyfredol. Mewn rhannau o'r pentref lle roedd unigolion wedi mynd allan a siarad â'u cymdogion, mae dros 90% o'r bobl y siaradwyd â hwy wedi llofnodi i ddangos eu cefnogaeth i'r syniad. Rwyf wedi casglu 245 o lythyron sy'n cefnogi'r cynnig a disgwyliaf eich bod efallai wedi derbyn nifer drwy'r post neu drwy neges e-bost. Mae'n glir bod mwyafrif llethol preswylwyr Aberogwr o blaid y newid arfaethedig yn y ddarpariaeth gymunedol a'r unig beth rwy'n difaru yw, oherwydd amgylchiadau, nad oeddwn wedi gallu galw ym mhob tŷ yn y ward fel roeddwn wedi bwriadu gwneud.

- Yn ystod y dyddiau diweddar, mae nifer o breswylwyr Southerndown wedi dweud wrthyf y byddent hwy o blaid cael eu cadw gydag Aberogwr pe cyflwynir unrhyw drefniadau newydd. Fel Aberogwr, pentref ar lan y môr yw Southerndown sydd â

llawer o'r un problemau. Poendod oddi wrth ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf, traffig cyflym, diffyg cyfleusterau cymunedol a'r posibilrwydd o dyfu i fod yn ddwywaith ei faint presennol gan ei fod wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd y Fro yw rhai o'r materion sy'n gyffredin i ni. Gellir dadlau hefyd fod gan Southerndown fwy sy'n gyffredin ag Aberogwr na Saint-y-brid a byddai ei anghenion yn cael gwell sylw pe byddai'n ymuno ag Aberogwr os gwneir unrhyw newidiadau. Gofynnaf am i'r syniad hwn hefyd gan ei ystyried gan y Comisiwn.

- Am gyfnod rhy hir, ychydig iawn o sylw cafodd Aberogwr gan lywodraeth leol a gofynnaf yn garedig i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ystyried dymuniadau mwyafrif preswylwyr Aberogwr a chymryd unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sefydlu Cyngor Cymuned annibynnol ar gyfer yr ardal er mwyn cynnig llywodraeth leol mwy effeithiol a chyfleus.

Awgrymodd **Y Cynghorydd Alan Morgan** o Saint-y-brid y byddai'n fuddiol i Aberogwr pe bai yn cael ei Gyngor Cymuned ei hun neu i newid nifer y Cynghorwyr er mwyn cael cynrychiolaeth well ar gyfer y ward fel y mae ar hyn o bryd. Amlinellir ei resymau am yr awgrymiadau hyn isod:

- Rhennir Cymuned Saint-y-brid yn ddwy ward. Mae ward Saint-y-brid yn cynnwys pentrefi Saint-y-brid a Southerndown yn ogystal ag aneddiadau llai Heol y Mynydd a Chastell ar Alun; mae gan y ward gyfanswm o tua 850 o etholwyr a gynrychiolir gan 6 Cynghorydd Cymuned. Mae ward Aberogwr yn cynnwys pentref Aberogwr a'r pentref bychan a adwaenir fel Pentref Ogwr, mae ganddo tua 820 o etholwyr a gynrychiolir gan 5 Cynghorydd Cymuned.

- Er mai dyma'r anheddiad mwyaf yn ardal y Cyngor Cymuned, mae pentref Aberogwr wedi'i dangynrychioli ar y Cyngor. Hefyd mae pentref Southerndown, er gwaethaf y ffaith ei fod yn anheddiad sylweddol heb gynrychiolaeth benodol.

- Rwyf wedi cymryd diddordeb manwl mewn materion cymunedol am gryn amser ac mae'n amlwg i mi nad yw preswylwyr Saint-y-brid a phreswylwyr Aberogwr yn ystyried bod llawer yn gyffredin rhyngddynt. Yn hanfodol, mae rhyngweithio rhwng y pentrefi yn brin ac wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i fynychwyr Eglwysi a disgyblion ysgolion cynradd. Ni ellir ystyried yr ardal fel un gymuned mewn unrhyw ffordd ystyrlon.

- Mae canlyniadau difrifol i'r sefyllfa hon wrth geisio rhedeg y Cyngor Cymuned yn effeithiol. Mae aelodau o un ward wedi bod yn dueddol o beidio â phoeni llawer am faterion sy'n effeithio ar y ward arall, ni waeth pa mor bwysig y mae preswylwyr ac aelodau o'r ward berthnasol yn ystyried y mater dan sylw. Mae hyn wedi bod yn brif achos o anghytgord, casineb a gelyniaeth agored rhwng aelodau o'r Cyngor yn ystod y 5-6 blynedd diwethaf pan roddwyd y gorau i gyfarfodydd, tri chlerc wedi ymddeol a honiadau niferus wedi'u cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- Tra bo'r gwrthdaro hwn wedi bodoli, mae pentref Southerndown yn fy marn i wedi cael ei esgeuluso i raddau helaeth ac wedi cael ei drin fel rhyw fath o 'Dir Neb' rhwng pentrefi Saint-y-brid ac Aberogwr. Wrth gwrs, nid oes neb wedi elwa o'r sefyllfa hon, y preswylwyr yn enwedig, waeth beth fo'u cyfeiriad.

- Ar nodyn cadarnhaol, yn ystod yr etholiadau diweddar, gwelwyd nad oedd nifer o Gynghorwyr yn sefyll ac i bob pwrpas mae Cyngor 'newydd' sydd wedi dangos parodrwydd i gydweithio heb yr hen gasineb bellach yn cynrychioli'r ardal. Fodd bynnag, mae achosion sylfaenol y casineb yn aros, nid oes llawer yn gyffredin rhwng Aberogwr a Saint-y-brid ac mae gan Southerndown ddiffyg unrhyw gynrychiolaeth benodol.

Awgrymodd **Cadeirydd Ceidwadwyr Bro Morgannwg** y newidiadau canlynol:

- Sefydlu ward ychwanegol yng Nghyngor Cymuned Gwenfô yn seiliedig ar ddosbarth pleidleisio PA1 gan gynnwys Parc-y-Gwenfô, Brooklands Terrace a Cambrian Park. Ei resymeg yw bod oddeutu 380 o etholwyr yn y lleoliad a byddai ward bwrpasol ag un neu ddau Gynghorydd yn gwarantu cynrychiolaeth ar y Cyngor Cymuned. Gallai maint y Cyngor gael ei gynyddu yn unol â nifer y Cynghorwyr ychwanegol neu gellir cynyddu'r nifer i 12 gyda llai o Gynghorwyr nag ar hyn o bryd yn cynrychioli prif ardal Gwenfô, e.e. 2 yn ward St Lythams, 2 yn ward PA1, 8 yng Ngwenfô.

- Yr ardal a adwaenir fel Pencoedtre neu Bentref Pencoedtre i gael ei sefydlu fel ward ynddi'i hun. Oherwydd datblygu yn ystod y blynyddoedd diweddaf, mae bellach dros 850 o dai yno gyda mwy i ddod ac mae'n gwbl wahanol i ward Catwg, sef maesdref y Barri ac mae iddi ei hunaniaeth ei hun.

Awgrymodd **310 o breswylwyr Aberogwr,** trwy gyfrwng llythyr pro-forma, sefydlu Cyngor Cymuned newydd ar gyfer Aberogwr yn seiliedig ar ward Aberogwr o Gyngor Cymuned Saint-y-brid. Roedd y llythyr yn amlinellu sail eu hawgrym fel a ganlyn:

- Am flynyddoedd mae preswylwyr Aberogwr wedi bod yn tynnu sylw at broblemau ond ychydig iawn a wnaed i wella pethau. Mae'r sŵn o'r meysydd parcio a phoendod baw cŵn a sbwriel ar y Tir Comin yn cynyddu bob blwyddyn; yn ystod misoedd yr haf mae'r strydoedd wedi'u tagu â cheir wedi'u parcio; mae traffig sy'n gyrru'n gyflym yn parhau'n fygythiad parhaol; mae carthion yn aml yn arllwys ar y Tir Comin ac ati.

- Mae dros 900 o breswylwyr bellach yn Aberogwr o gymharu â thros 600 yn Saint-y-brid (ystadegau Cyngor y Fro) ond er y 1970au rydym wedi colli 2 siop, 2 gaffi a 4 tafarn. Mae'r awdurdodau yn dueddol o ystyried ardal y Cyngor Cymuned presennol fel un 'cymuned' ond mae adnoddau'r gymuned wedi'u canolbwyntio yn Saint-y-brid a dim ond siop y pentref a bar tapas bychan sydd ar ôl yn Aberogwr.

- Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd y Fro wedi clustnodi Aberogwr ar gyfer datblygiadau tai gyda 40 erw o dir o amgylch y pentref wedi'u bwriadu ar gyfer tai newydd. Gallai hyn olygu mwy na 500 o dai ychwanegol. Mae angen llais cryf i siarad ar ein rhan yn ystod y prosesau hyn .

- Am flynyddoedd lawer, mae ein Cyngor Cymuned wedi treulio'r rhan fwyaf o'i amser a'i arian ar gynnal a chadw ac yswirio eiddo. Mae'n berchen ar fynwent, cloc yr eglwys, croes bregethu, cofeb rhyfel, 13 lloches bysus a 10 sedd min ffordd. Gallai cyngor annibynnol ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phryderon preswylwyr lleol ac arbed arian trwy roi eiddo i sefydliadau a allent ofalu amdanynt yn well.

- Mae angen llais cryf annibynnol ar ein cymuned er mwyn sicrhau y caiff pryderon Aberogwr sylw effeithiol ar bob lefel o lywodraeth. Gyda tua 850 o etholwyr, byddai cyngor Aberogwr yn un o'r cynghorau cymuned mwyaf yn y Fro a gallai gefnogi ein cymunedau cyfagos fel partner cydradd pan fyddai gennym fuddiannau sy'n gyffredin.

- Cymerwch y camau angenrheidiol er mwyn darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus i'n pentref.

Yn ogystal â'r llythyr templed, derbyniwyd sylwadau ychwanegol gan y preswylwyr canlynol o Aberogwr:

Dywedodd **preswylydd** o Sea Drive, Aberogwr ei fod ef fel rhiant a phreswylydd o Aberogwr yn gwbl o blaid Cyngor annibynnol. Awgryma o wneud hynny o leiaf ni all y Cyngor guddio tu ôl i ffeithiau ac ystadegau gyda pentrefi cyfagos fel cael parc da ar gyfer y nifer mawr o blant sydd yn y pentref. Mae'n chwerthinllyd i'r eithaf ddisgwyl fy mod fel un o nifer o rieni yn y pentref yn gyrru i Saint-y-brid bob tro y mae fy mhlentyn am fynd i'r parc. Mae hyn yn enwedig ar ôl cael gwybod y rheswm dros beidio â gosod rampiau cyflymder ar y cylch rasio *grand prix* a wnaeth y Cyngor ym maes parcio Aberogwr oherwydd y llygredd y byddai'n achosi i'r haen osôn. Mae'n hen bryd cael cymuned annibynnol.

Gwnaeth **preswylydd** o Sea Drive, Aberogwr y sylwadau canlynol:

- Rwyf yn preswylio yn Aberogwr, ac fel gwraig, a mam i blentyn pedair oed, mae wedi dod yn gwbl amlwg bod diffyg sylweddol o ran gwasanaethau ac amwynderau yn y pentref. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn falch iawn o'i bolisïau eco, sy'n ystyriol o deuluoedd ond o ystyried bod ein Cyngor Cymuned yn cynnwys y tri phentref sef Aberogwr, Southerndown a Saint-y-brid, mae'n anodd iawn i unrhyw riant sy'n byw yn Aberogwr gefnogi'r polisïau hynny, pan leolir ein holl amwynderau dinesig a theuluol rhyw 2.7 milltir i ffwrdd yn Saint-y-brid.

- Mae'r ysgolion, (y cylch chwarae a'r ysgol gynradd fel ei gilydd), y maes chwarae diogel i blant (nid yn unig y mae cyfarpar ar goll yn un Aberogwr, nid oes gorchudd llawr diogel yno chwaith), sawl siop (swyddfa bost a siop y pentref, siop ddillad a siop anrhegion) a'r tafarnau (*The Fox & Hounds* a'r *Farmer's Arms*) i gyd yn Saint-y-brid ac nid yn unig y mae angen i rieni yrru i'r pentref er mwyn y cyfleusterau hyn, ond mae angen lle ar y ceir i barcio ar stryd sydd eisoes dan ei sang gan gynnwys lorïau Nwyddau Trwm a thraffig cyffredinol. O ganlyniad, mae'n rhaid bod llygredd yn fater o bryder yn Saint-y-brid.

- Mae angen ein Cyngor Cymuned annibynnol ein hun yn wir arnom sydd â'r rheolaeth i drefnu materion sy'n effeithio ar Aberogwr a chefnogi oddeutu 1,000 o breswylwyr. Nid ydym bellach am Gyngor Cymuned cyfunol sydd ar yr wyneb yn hawlio bod darpariaeth dda ar gyfer Aberogwr yn seiliedig ar y cyfleusterau a rennir â phentrefi mwy daearyddol anghysbell, rydym am gyfleusterau y gall pawb gael mynediad iddynt ar droed gan arbed amser, tanwydd, llygredd a thagfeyddd a hynny dan ofal pobl sy'n falch o'r pentref maent hwy yn byw ynddo.

- Derbyniwch hwn os gwelwch yn dda fel pleidlais o blaid cael Cyngor Cymuned annibynnol i Aberogwr.

Gwnaeth **dau breswylydd** o Marine Drive, Aberogwr gais i ystyried sefydlu Cyngor Cymuned newydd yn seiliedig ar ward Aberogwr o Gyngor Cymuned Saint-y-brid. Y rheswm am y cais oedd nifer bychan y cyfleusterau cymunedol yn Aberogwr a'r angen i'r gymuned gael llais cryfach mwy annibynnol i leisio'r pryderon hyn. Maent yn gofyn am i'r cais hwn gael ei ystyried ac i'r camau angenrheidiol gael eu cymryd er mwyn cynnig llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Tynnodd **preswylydd** o Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr sylw at y ffaith i'r arolwg blaenorol o ffin Plwyf Ewenni rannu'r gymuned yn ddwy ran drwy sefydlu'r ffin ar hyd afon Ewenni. Ystyriwyd bod yr ardal a drosglwyddwyd allan i ward Oldcastle Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Bentref Ewenni ac yn cynnwys y Crochendai a oedd â chysylltiad enwog ag Ewenni.

Awgrymodd symud y ffin i ddilyn Rheilffordd Bro Morgannwg a'r lein Gangen i ffatri Ford fel y dangosir ar ei gynllun atodedig. Un rheswm am hyn yw na ofelir am y llwybr o dref Pen-y-bont ar Ogwr sy'n mynd drwy Weunydd Ewenni ac sy'n cysylltu â'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus gorllewin Bro Morgannwg ac nid yw'n ymddangos mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd. Awgrymodd y byddai'n gwneud synnwyr i un awdurdod reoli'r llwybr hwn. Yr ail reswm oedd uno pentref Ewenni ar ôl iddo gael ei rannu yn yr arolwg diwethaf.